# Canllawiau ar Leoli Disgyblion y Tu Allan i'r Grŵp Blwyddyn Cronolegol

2022-25



Croesawn alwadau yn y Gymraeg / We welcome calls in Welsh

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

✉ Tîm Derbyn i Ysgolion,Cyngor Dinas Casnewydd,Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR

01633 656656

@ school.admissions@newport.gov.uk

Os hoffech chi gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, mewn braille, er enghraifft, neu brint mawr, neu gymorth mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Derbyn i Ysgolion

---

فريق القبول الاتصال يرجى ،مختلفة بلغة تفسير في مساعدة أو ،الكبيرة الطباعة أو للقراءة برايل طريقة المثال سبيل على ،آخر شكل أي في المعلومات هذه ترغب كنت إذا على المدرسة **Arabeg**

Nëse dëshironi që këto informacione në ndonjë format tjetër, për shembull gërsheta ose printime të mëdha, ose të ndihmoni në interpretimin në gjuhë të ndryshme, ju lutemi kontaktoni Ekipin e Pranimeve të Shkollave **Albaneg**

如果您希望以其他格式提供這些信息, 例如盲文或大字印刷，或以不同語言解釋幫助，請致電 **Cantoneg**

Pokud byste chtěli tuto informaci v jiném formátu, například Braillovo písmo nebo velký tisk, nebo pomoc s výkladem v jiném jazyce, obraťte se na školu Přijímací tým **Iaith**
**Tsiec**

Ha bármilyen más formátumban, például Braille-írással vagy nagyméretű nyomtatásban szeretné megkapni ezt az információt, vagy más nyelven történő tolmácsolást igényel, kérjük, vegye fel a kapcsolatot a Beiratkozási csoporttal **Hwngareg**

Se desideri queste informazioni in qualsiasi altro formato, ad esempio in braille o caratteri grandi, o aiuto nell'interpretazione in una lingua diversa, contatta il Personale di Ammissione alle Scuole
**Eidaleg**

如果您希望以其他格式提供这些信息, 例如盲文或大字印刷，或以不同语言解释帮助，请致电 **Mandarin**

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'a czy duży druk, lub pomoc przy interpretacji w innym języku, prosimy o kontakt z Zespołem przyjęć do szkół
**Pwyleg**

Se você gostaria de ter esta informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou letras grandes, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, por favor entre em contato com a Equipe de 'Admissões Escola'
**Portiwgaleg**

Dacă doriți informații în orice alt format, de exemplu, de imprimare Braille sau mare, sau de ajutor cu interpretarea într-o altă limbă, vă rugăm să contactați Admitere echipa de școală **Romaneg**

Если Вам нужна эта информация в любом другом формате, например в шрифте Брайля или крупной печати, или помощь при устном переводе на другой язык, пожалуйста, свяжитесь с школьной комиссией **Rwseg**

Ak by ste chceli túto informáciu v inom formáte, napríklad Braillovo písmo alebo veľká tlač, alebo pomoc s výkladom v inom jazyku, obráťte sa na školu Prijímacie tím
**Slofaceg**

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo, braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, comuníquese con el Equipo de Admisión Escolar
**Sbaeneg**

Başka bir formatta bu belgeyi almak isterseniz, örneğin farklı bir dilde yahut braille veya büyük harflerle, bu numarayi arayin **Twrceg**

مدد یا ،پرنٹ بڑے یا بریل سانچہ کے تشریح میں زبان مختلف ایک پر طور کے مثال تو ،ہیں چاہتے معلومات یہ میں فارمیٹ دوسرے بھی کسی کو آپ اگر
**Wrdw**

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft braille neu brint bras, neu help gyda chyfieithu i iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Derbyn i Ysgolion **Cymraeg**

**Croesawn alwadau yn y Gymraeg / We welcome calls in Welsh**

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

**Canllawiau ar leoli disgyblion y tu allan i'w Grŵp Blwyddyn Cronolegol**

## 1. Diben

Diben y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i ysgolion a rhieni sy'n ystyried lleoli disgybl mewn grŵp blwyddyn iau neu hŷn yn gronolegol nag un eu cyfoedion o'r un oedran. Enghraifft o hynny fyddai gosod disgybl Blwyddyn 3 mewn dosbarth Blwyddyn 2. Bydd y ddogfen ganllaw hon yn rhoi trosolwg o safbwynt Cyngor Dinas Casnewydd o ran Derbyn i Grŵp Blwyddyn Anghronolegol (DGBA), y wybodaeth a ddefnyddir yn sail i benderfyniadau perthnasol, a'r broses ar gyfer ystyried ceisiadau.

## 2. Datganiad Safbwynt Cyngor Dinas Casnewydd

**Barn Cyngor Dinas Casnewydd yw y dylai achosion o'r fath fod yn brin iawn. Disgwyliad Cyngor Dinas Casnewydd yw y dylid diwallu a darparu ar gyfer anghenion unigol pob disgybl drwy gymorth a gwahaniaethu priodol o fewn y grŵp blwyddyn priodol i'w hoedran. Mae hyn yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r disgwyliad hwn yn ymestyn i achosion lle mae gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae'n cael pen-blwydd yn yr haf, mae'n cael ei (h)ystyried yn fwy abl a thalentog (MAT), mae'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, neu mae wedi symud i Gasnewydd o dramor yn ddiweddar. I weld yr ymchwil gynhwysfawr sy'n llywio safbwynt y Cyngor ar Dderbyn i Grŵp Blwyddyn Anghronolegol (DGBA), gweler Atodiad 1.**

Yng Nghasnewydd, dim ond ar sail y termau a'r egwyddorion yn y canllawiau yn y ddogfen hon y gwneir penderfyniad i roi disgybl mewn grŵp blwyddyn anghronolegol. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan Uwch Dîm Rheoli Addysg (UDRhA) Cyngor Dinas Casnewydd. Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â phlentyn sydd wedi symud i'r DU yn ddiweddar, neu os oes pryderon gan rieni yn ymwneud â'r ffaith bod gan y disgybl Saesneg fel iaith ychwanegol (SIA), bydd yr UDRhA yn ymgynghori â Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent (GLlEA) wrth wneud penderfyniadau. Pan fo'r cais yn ymwneud â disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), bydd yr UDrhA yn ymgynghori â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol (GSA) wrth wneud penderfyniadau.

Dim ond ar ôl i ysgol, rhieni a swyddogion ALl ystyried yn ofalus amgylchiadau y disgybl unigol a chytuno ar yr hyn y dylai trefniant o'r fath ei gyflawni, y dylid gwneud y penderfyniad anarferol i addysgu disgyblion mewn grŵp blwyddyn anghronolegol. Dylai'r penderfyniad hefyd roi pwys priodol ar farn y disgybl. Bydd angen archwilio pob llwybr posibl arall. Bydd yr achos yn cael ei ystyried yn nhermau budd gorau'r disgybl ar adeg y cais ac yn y dyfodol.

***Sylwch fod y canllawiau hyn yn ymwneud â derbyn disgyblion unigol i grŵp blwyddyn anghronolegol yn barhaol (h.y., iau neu hŷn) yn hytrach na sefyllfa lle mae disgyblion yn***

***cael eu rhoi, gyda'u cyfoedion, mewn dosbarthiadau oedran cymysg a/neu lle mae trefniadau i ddisgybl neu grŵp o ddisgyblion unigol ymuno â dosbarth iau neu hŷn ar gyfer gweithgareddau neu feysydd pwnc penodol, lle y bernir bod hynny'n addas ar sail addysgol. Mae trefniadau o'r fath yn faterion i'r ysgol benderfynu arnyn nhw, ar ôl ymgynghori â'r rhieni, ond rhaid sicrhau bod y disgybl yn parhau i dreulio'r rhan fwyaf o'i (h)amser yn dysgu ac yn chwarae ochr yn ochr â'i gyfoedion o'r un oed.***

Ceir adran yng Nghod Derbyn i Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013) sy'n ymwneud â derbyn i grŵp oedran anarferol yn Atodiad 1 i'r canllawiau hyn. Mae hon yn berthnasol pan fydd disgyblion yn dechrau neu'n symud ysgol. Sonnir hefyd am dderbyn i grŵp y tu allan i'r flwyddyn gronolegol ym Mholisi Derbyn Cyngor Dinas Casnewydd sydd i'w weld yma.

## 3. Arferion cynhwysol a seiliedig ar dystiolaeth

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl arferion sy'n ymwneud ag addysg disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth, yn seiliedig ar ymchwil, ac yn gynhwysol (Atodiad 1).

Mae arferion cynhwysol yn sicrhau bod gan blentyn brofiadau lle gall ddysgu, cyflawni a chymryd rhan lawn ym mywyd ysgol. Mae'r dull hwn yn gofyn am ethos ysgol gyfan lle mae gan bob aelod o gymuned yr ysgol agwedd gadarnhaol a chynhwysol tuag at **bob disgybl,** a pharodrwydd i addasu dulliau i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys. Nodwedd hanfodol felly o'n system addysg bresennol yw sicrhau bod disgyblion yn profi cwricwlwm priodol, heriol, ysgogol ac amrywiol sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion unigol.

Serch hynny, mae achlysuron lle mae rhieni a/neu ysgolion yn credu bod addysgu plant mewn grŵp blwyddyn anghronolegol yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth ymchwil sydd ar gael yn cadarnhau hynny gan fod llawer o astudiaethau wedi dangos, er gwaethaf rhai canlyniadau cadarnhaol byrdymor, bod DGBA (Derbyn i Grŵp Blwyddyn Anghronolegol) yn esgor ar lawer o ganlyniadau negyddol hirdymor heb fawr ddim manteision, os o gwbl, o ran cynnydd neu ddatblygiad academaidd neu gymdeithasol.

## 3. Ystyriaethau ychwanegol wrth roi disgyblion mewn grŵp blwyddyn iau

Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r goblygiadau posibl sy'n gysylltiedig â lleoli disgybl mewn grŵp blwyddyn iau na'i oedran cronolegol, y dylid eu hystyried yn ofalus.

- Fel arfer, nid yw disgyblion y tu ôl o ran eu datblygiad ym mhob agwedd, ac felly mae risg o beidio â meithrin cryfderau yn ddigonol.
- Mae'r disgybl yn debygol o sylweddoli bod oedran gweddill y dosbarth yn wahanol, a gallai hynny fod yn ddryslyd neu'n ofidus. Gall hynny effeithio ar ddatblygiad

cymdeithasol ac emosiynol, er enghraifft eu hunan-barch. Gall hynny fod yn fwy amlwg ar adegau pontio allweddol (e.e. gweddill eu cyfoedion yn symud i'r ysgol uwchradd).

- Gallai'r disgybl ddechrau ar y glasoed yn gynt na'i gyd-ddisgyblion. Gallai hynny fod yn anodd iawn i bobl ifanc pan nad yw'r rhan fwyaf o'u cyd-ddisgyblion yn mynd trwy'r un newidiadau.
- Gall y disgybl adael yr ysgol yn 16 oed heb gwblhau cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4. Gall disgyblion yng Nghymru adael yr ysgol ar Ddydd Gwener olaf Mehefin yn y flwyddyn y byddant wedi cyrraedd eu pen-blwydd yn 16 erbyn 31 Awst.
- Gallai cyflogwyr yn y dyfodol weld hynny mewn goleuni negyddol
- Gallai ymyriadau eraill fod yn fwy priodol yn yr hirdymor. Efallai y bydd lleoli plentyn mewn grŵp blwyddyn anghronolegol yn gohirio ystyriaeth o strategaethau neu ddarpariaeth arall.
- Wrth leoli'r disgybl yn y grŵp blwyddyn sy'n briodol o ran ei (h)oedran, byddai'r disgybl yn colli blwyddyn o astudio. Byddai hyn yn her arbennig i ddisgybl sydd wedi datblygu'n arafach na disgyblion o'r un oed a gallai niweidio hunan-barch a hyder.
- Bydd gan bob awdurdod lleol (ALl) ei bolisi ei hun ar leoli mewn grŵp blwyddyn anghronolegol, ac nid oes sicrwydd y bydd polisi un ALl i leoli plentyn mewn grŵp blwyddyn arall ar waith mewn ALl arall.

## 4. Dull penderfynu Cyngor Dinas Casnewydd ar DGBA

Mae'r adran hon yn nodi'r egwyddorion a'r eithriadau posibl sy'n llywio penderfyniadau Cyngor Dinas Casnewydd mewn perthynas â DGBA.

4.1 *Egwyddorion cyffredinol*

- Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i addysg gynhwysol ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel y manylir yn y ddogfen ganllaw hon. O'r herwydd, bydd addysgu disgyblion mewn grŵp blwyddyn anghronolegol yn **eithriadol iawn**.
- Mae Casnewydd yn darparu sbectrwm o gymorth a darpariaeth yn unol â Chod ADY Cymru (2021), a dylid dilyn ymateb graddedig yn y lle cyntaf.
- Mae Ysgolion Casnewydd yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru sy'n seiliedig ar ddatblygiad (h.y. camau cynnydd) ac yn cydnabod nad yw "dysgu bob amser yn gysylltiedig ag oedran. Fydd pethau ddim yn digwydd yn yr un ffordd, nac ar yr un pryd i bawb".
- Mae gan ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol fynediad yn eu grwpiau blwyddyn gronolegol at gymorth gan yr ysgol a/neu hefyd Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent (GLlEA).
- Ni dderbynnir disgyblion i flwyddyn nad yw'n cyfateb i'r flwyddyn gronolegol yn sgil symud rhwng systemau addysg, megis symud o dramor. Mae cyngor lleol penodol ynghylch y sefyllfa benodol hon ar gael drwy e-bostio School.admissions@newport.gov.uk
- **Ni** ddylai disgybl gael ei symud **yn fwy nag un** flwyddyn academaidd.

- Ni ddylai disgyblion gael eu dal nôl mewn grŵp blwyddyn ar unrhyw gyfrif dim ond er mwyn osgoi/gohirio penderfyniadau eraill e.e., ynghylch pontio i gyfnod allweddol pellach, neu i ysgol arbennig neu ddarpariaeth arbennig
- Nid oes rheidrwydd ar yr ALl i ddarparu lleoliadau ysgol i blant y tu hwnt i oedran ysgol statudol (h.y. Blwyddyn 12 yn gronolegol).

4.2 Eithriadau posibl a allai fod yn sail i DdGBA

Isod, mae amgylchiadau penodol y gallai Cyngor Dinas Casnewydd eu hystyried yn eithriadol ac yn sail dros DdGBA. Rhaid pwysleisio bod yn rhaid cynnwys tystiolaeth ffurfiol yn rhan o unrhyw gais a wneir ar sail y rhesymau hyn, er enghraifft, adroddiadau iechyd, meddygol neu ofal cymdeithasol perthnasol. Cyfrifoldeb y person sy'n gofyn am DdGBA yw darparu'r dystiolaeth hon.

- Mae plentyn/person ifanc wedi bod yn absennol o'r ysgol am gryn amser oherwydd **anghenion iechyd corfforol** ac mae o'r herwydd wedi colli cyfleoedd addysgol allweddol.

- Mae plentyn / person ifanc wedi wynebu **trawma seicolegol a/neu salwch meddwl** sylweddol sydd wedi ei atal yn sylweddol rhag cael mynediad at addysg am gyfnod sylweddol o amser.

4.3 Ystyriaethau gorfodol

Ym mhob achos, bydd CDC yn ystyried sut mae opsiynau eraill wedi eu hystyried/archwilio a'r rhesymau pam nad ydyn nhw ar gael a/neu'n ymarferol. Bydd angen i'r Cyngor hefyd fod yn fodlon ei bod yn amlwg bod y penderfyniad i dderbyn disgybl i grŵp blwyddyn anghronolegol:

- er budd y plentyn, ar y cyfan;
- yn cyd-fynd â barn, dyheadau a dewisiadau y plentyn ei hun;
- ddim yn achosi unrhyw niwed i les emosiynol nac academaidd y plentyn; a
- ddim yn achosi unrhyw niwed i les emosiynol nac academaidd disgyblion eraill.

4.4 Barn y disgybl

Rhaid i unrhyw gais am DdGBA ystyried barn, dyheadau a dewisiadau'r disgybl. Os yw Cyngor Dinas Casnewydd o'r farn y gallai cais fodloni'r eithriadau yn Adran 4.2 y ddogfen hon, gall geisio barn y disgybl yn annibynnol, pan fydd hynny'n briodol. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried achosion yn ofalus iawn, o ran niwed posibl, lle mae disgybl sydd â chapasiti perthnasol wedi mynegi barn sy'n gwrthwynebu'r syniad o DdGBA.

## 5. Prosesau ar gyfer Ceisiadau DGBA

Yng Nghasnewydd, bydd yr holl benderfyniadau i leoli mewn grŵp blwyddyn anghronolegol yn cael eu gwneud gan Uwch Dîm Rheoli Addysg Cyngor Dinas Casnewydd (UDRhA) gan gyfeirio'n benodol at Adran 4 y ddogfen hon (nid yw hyn yn berthnasol i ddisgyblion sy'n bresennol mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (ffydd) ar hyn o bryd, lle mae prosesau lleol ar waith, gweler 5.3 isod). **Gwneir y penderfyniad ar sail tystiolaeth sydd wedi'i dogfennu a ddarperir gan rieni/ofalwyr yn rhan o'r cais. Cyfrifoldeb y person sy'n gwneud y cais yw darparu'r dystiolaeth hon.**

- Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â phlentyn sydd wedi symud i'r DU yn ddiweddar, neu os oes pryderon gan rieni yn ymwneud â'r ffaith bod gan y disgybl Saesneg fel iaith ychwanegol (SIA), bydd UDRhA yn ymgynghori â Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent (GLlEA) fel sy'n briodol wrth wneud penderfyniadau.
- Pan fo'r cais yn ymwneud â disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys anghenion corfforol neu feddyliol, bydd yr UDrhA yn ymgynghori â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol (GSA) fel sy'n briodol wrth wneud penderfyniadau.

Ar ôl i **gais â thystiolaeth a manylion priodol** ddod i law, rhagwelir y gwneir penderfyniad o fewn 14 diwrnod gwaith. Bydd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi drwy lythyr.

Mae tair proses wahanol ar gyfer ceisiadau DGBA:

- Plentyn sy'n symud i ysgol yng Nghasnewydd o awdurdod derbyn neu wlad arall, neu sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf (h.y. dosbarth meithrin neu dderbyn yng Nghasnewydd).
- Plentyn sydd ar hyn o bryd yn mynd i ysgol a reolir gan gymuned neu'n wirfoddol.
- Plentyn sy'n mynd i ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd) yng Nghasnewydd, neu y rhagwelir y bydd yn gwneud hynny.

Ceir manylion am bob proses yn 5.1, 5.2 a 5.3, isod.

### 5.1 Cais DGBA gan rieni pan fydd plentyn yn symud i Ysgol Casnewydd o awdurdod derbyn neu wlad wahanol

Pan fydd plentyn yn symud i ysgol yng Nghasnewydd o awdurdod derbyn[1] neu wlad wahanol, ac mae'r rhieni'n gwneud cais DGBA, **ar rieni/ofalwyr y mae'r ddyletswydd i wneud cais ffurfiol am hynny yn unol â'r ddogfen ganllaw hon (h.y. yr eithriadau a allai gyfiawnhau DGBA) a chyflwyno tystiolaeth ategol berthnasol.** Dylai cais gynnwys:

- Y rhesymeg dros y cais;

[1] Byddai hyn yn cynnwys symud o ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd).

- Manteision canfyddedig i'r plentyn/person ifanc;
- Gwybodaeth gan sefydliadau addysgol blaenorol a fynychwyd a thystiolaeth o'r cymorth a'r strategaethau a ddefnyddiwyd;
- Tystiolaeth o opsiynau eraill a ystyriwyd/archwiliwyd a sut nad yw'r rhain ar gael a/neu'n ymarferol;
- Holl ganlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol a chanlyniadau profion safonedig;
- Tystiolaeth o anghenion iechyd corfforol neu feddyliol;
- Adroddiadau gan unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu tystiolaeth ffurfiol o angen;
- Barn y disgybl;
- Datganiad ysgrifenedig bod rhieni/gofalwyr wedi darllen ac ystyried yr ystyriaethau yn y ddogfen hon, ac yn Adran 3 yn benodol.

Ni fydd ceisiadau a wneir heb y dystiolaeth hon, neu heb gyfeiriad clir, yn cael eu hystyried gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Dylid gwneud ceisiadau i blant sydd wedi symud i Gasnewydd drwy school.admissions@newport.gov.uk

5.2 Cais gan rieni am DdGBA pan fydd plentyn yn mynd i ysgol yng Nghasnewydd

Am y rhesymau a fanylir yn y ddogfen ganllaw hon, pan fydd plentyn mewn ysgol yng Nghasnewydd, ac mae'r rhieni'n ystyried gwneud cais DGBA, disgwylir y bydd rhieni wedi gweithio'n agos gydag ysgol bresennol y plentyn/person ifanc i drafod eu pryderon ac wedi archwilio'n drylwyr gyda'r ysgol bob llwybr arall i helpu'r plentyn. Dylai hyn ddigwydd dros gyfnod o amser.

Os, ar ôl gweithio'n agos gyda'r ysgol dros gyfnod o amser, mae'r rhieni/gofalwyr yn penderfynu eu bod yn dymuno gwneud cais am DdGBA, **ar rieni/ofalwyr y mae'r ddyletswydd i wneud cais ffurfiol am hynny yn ysgrifenedig drwy e-bost ar sail y ddogfen ganllaw hon (h.y. yr eithriadau a allai gyfiawnhau DGBA) a darparu tystiolaeth ategol berthnasol.** Dylai cais gynnwys:

- Y rhesymeg dros y cais;
- Manteision canfyddedig i'r plentyn/person ifanc;
- Datganiad gan yr ysgol yn mynegi eu barn ynglŷn â'r cais;
- Dogfennaeth gan yr ysgol yn dangos ymateb graddedig, trefniadau cymorth, ymyriadau a/neu addasiadau sydd wedi'u gweithredu a'u hymgorffori dros amser i oresgyn yr anawsterau neu'r heriau sy'n cael eu profi;
- Tystiolaeth o opsiynau eraill a ystyriwyd/archwiliwyd a sut nad yw'r rhain ar gael a/neu'n ymarferol;
- Holl ganlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol a chanlyniadau profion safonedig;

- Tystiolaeth o anghenion iechyd corfforol neu feddyliol;
- Adroddiadau gan unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n cyfrannu at ddarparu tystiolaeth ffurfiol o angen;
- Barn y disgybl;
- Datganiad ysgrifenedig bod rhieni/gofalwyr wedi darllen ac ystyried yr ystyriaethau yn y ddogfen hon, ac yn Adran 3 yn benodol.

Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer plentyn sy'n mynychu Ysgol Casnewydd ar hyn o bryd i Ceri.gibbons@newport.gov.uk

5.3 Cais gan rieni am DdGBA pan fydd plentyn yn mynychu neu y disgwylir iddo fynychu ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd) yng Nghasnewydd.

Pan fydd plentyn yn cael ei addysgu ar hyn o bryd neu y rhagwelir y bydd yn cael ei addysgu mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd) yng Nghasnewydd, yr ysgol unigol sy'n penderfynu a ddylid ei (l)leoli mewn blwyddyn anghronolegol, gan gyfeirio at ganllawiau CDC.

Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer plant sy'n mynychu ar hyn o bryd neu sydd i fod i gael eu derbyn i ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd) yng Nghasnewydd i Bennaeth yr ysgol.

5.4 Hawl rhieni/gofalwyr i apelio/wneud cwyn

Os gwrthodir eu cais am le mewn ysgol, mae gan rieni hawl statudol i apelio i'r Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Serch hynny, nid oes hawl i apelio os cynigiwyd lle ond nid yn y flwyddyn ysgol a ddymunwyd. Fodd bynnag, gallan nhw wneud cwyn, yn dilyn gweithdrefn gwyno gyhoeddedig yr Awdurdod Lleol.

## 6. Atodiad 1 – Tystiolaeth Ymchwil

### 6.1 *Tystiolaeth gyffredinol*

Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (SGA) yn elusen yn y DU sy'n ymchwilio i ymyriadau addysg effeithiol gyda'r nod o wella cyrhaeddiad addysgol o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Adolygodd y SGA (2021) 71 o astudiaethau ar DdGBA, a chanfu ei fod yn cael effaith negyddol ar gynnydd i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc. Roedd plant a phobl ifanc a oedd wedi ail-wneud blwyddyn ar gyfartaledd dri mis yn academaidd y tu ôl i'r rhai a arhosodd yn eu grŵp blwyddyn gronolegol. Mae'r effaith negyddol hon ar gynnydd yn fwy i blant a phobl ifanc sy'n iau yn eu grŵp blwyddyn, sydd â chefndir lleiafrif ethnig neu sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hynny'n dangos y gall ymyrraeth i ail-wneud blwyddyn mewn addysg gynyddu bwlch cyrhaeddiad. Mae ymchwil yn awgrymu pan fydd plant yn gallu parhau o fewn eu grŵp blwyddyn gronolegol, maen nhw'n cael cyfle i ddal i fyny yn academaidd ac yn debygol o dderbyn mwy o gymorth ac ymyrraeth na phe baen nhw'n ail-wneud blwyddyn (Allen et al., 2016). Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau yn dod o Unol Daleithiau America lle mae ail-wneud blwyddyn yn arfer cyffredin, yn wahanol i'r DU.

#### *6.1.1 Effaith academaidd*

Yn gyffredinol, mae ymchwil wedi dangos, o DdGBA, nad oes unrhyw effaith gadarnhaol ar gyflawniad academaidd, ac mewn rhai achosion mae hyd yn oed effaith negyddol.

- Adolygodd Hattie (2009) 800 o astudiaethau meta-ddadansoddiad yn ymwneud â chyflawniad a chanfu effaith negyddol ar gyflawniad academaidd plant a phobl ifanc ar y cyfan o gael eu haddysgu mewn blwyddyn academaidd anghronolegol. Cafwyd effaith negyddol benodol ar y pynciau canlynol; Iaith, y celfyddydau, darllen a mathemateg.
- Astudiodd Hughes et al. (2018) blant dros gyfnod o 14 mlynedd i ddeall effeithiau ailadrodd blwyddyn yn gynnar mewn addysg. Canfuwyd mai un effaith hirdymor oedd bod plant a wnaeth yr un flwyddyn eto yn fwy tebygol o adael addysg cyn ennill cymwysterau diwedd ysgol, na'r rhai nad oedd wedi gwneud blwyddyn eto.
- Mae ymchwil hefyd wedi dangos, ar ôl ail-wneud blwyddyn, y gall plant barhau i ddangos bwlch cyflawniad sy'n dangos nad yw'n ffordd effeithiol o gynnal datblygiad academaidd (Ikeda and Garcia, 2014)
- Gwnaeth rhai astudiaethau ganfod nad oedd cynnydd cychwynnol mewn cyrhaeddiad yn y tymor byr (h.y. y misoedd cynnar ar ôl DGBA) yn parhau wrth i'r disgybl symud ymlaen i wahanol grwpiau blwyddyn (Klapproth et al., 2016)

#### *6.1.2 Effaith gymdeithasol ac emosiynol*

Mae ymchwil yn gyffredinol yn awgrymu y gall fod effeithiau negyddol ar les cymdeithasol ac emosiynol disgybl o ganlyniad i DdGBA.

- Canfu Martin (2011) fod ail-wneud blwyddyn yn gysylltiedig â hunan-barch is, mwy o absenoldeb a llai o gymhelliant i ddysgu. Fe wnaethan nhw hefyd dynnu sylw at y pryder cynyddol o'r ymwybyddiaeth o fod yn oed wahanol i'w cyfoedion.
- Canfu Clatworthy, (2005) a Klapproth et al. (2016) fod addysg mewn grŵp blwyddyn anghronolegol wedi bod yn gysylltiedig ag iechyd emosiynol ac addasiad cymdeithasol gwaeth, yn ogystal â lefel uwch o bryder.
- Canfu Kretschmann et al. (2019) fod hunan-gysyniad academaidd plant a phobl ifanc (barn amdanyn nhw eu hunain fel dysgwr) yn llawer is yn achos rhaid a gafodd eu derbyn i flwyddyn arall, o'u cymharu â'r rhai a arhosodd yn eu grŵp blwyddyn gronolegol.
- Canfu Van Canegem et al. (2022) fod DGBA yn gysylltiedig â llai o ymdeimlad o berthyn o fewn addysg. Roedd y cysylltiad hwn yn gryfach pan roedd niferoedd y disgyblion a gafodd eu derbyn i grŵp blwyddyn arall yn isel.

*6.2 <u>Penblwyddi hwyr yn yr haf</u>*

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn mabwysiadu safbwynt y dylai pob plentyn gael ei addysgu yn ei grŵp blwyddyn gronolegol, hyd yn oed os yw'n cael pen-blwydd yn hwyr yn yr haf. Mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru (2022) wedi'i gynllunio i fod yn addas ar gyfer "dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a galluoedd". Mae'r egwyddorion addysgegol, sy'n sail i'r cwricwlwm, yn seiliedig ar gamau datblygiadol plant a bydd hynny'n cynnwys datblygiad holistig y disgybl (Blynyddoedd Cynnar Cymru, 2023). Felly, bydd y cwricwlwm yn addas ac yn gynhwysol i blant sy'n cael pen-blwydd yn hwyr yn yr haf.

Er i rywfaint o dystiolaeth awgrymu y gall disgyblion diwedd haf fod dan anfantais, nid yw DGBA yn ymyrraeth effeithiol i wella eu cynnydd (Major & Higgins, 2019). Gall cael eu haddysgu yn eu grŵp blwyddyn gronolegol gydag athrawon yn cydnabod eu gwahaniaeth oedran ac yn addasu disgwyliadau neu asesiadau yn ôl oedran helpu plant a phobl ifanc i symud ymlaen a chau unrhyw fwlch cyrhaeddiad posibl.

*6.3 <u>Anghenion Dysgu Ychwanegol</u>*

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn mabwysiadu safbwynt y dylai anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gael eu diwallu yn y grŵp blwyddyn gronolegol trwy wahaniaethu, cymorth, ac ymyrraeth briodol lle mae angen, yng nghyd-destun dydd i ddydd yr ystafell ddosbarth. Mae hynny'n unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Fel yr amlygwyd uchod, nid yw'r llenyddiaeth ymchwil yn cefnogi addysgu mewn blwyddyn anghronolegol fel strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion dysgu neu emosiynol a gall hyd yn oed beri effeithiau niweidiol. Canfu Keller-Margulis a Gishlar

(2014) hefyd fod plant ag ADY a gafodd eu haddysgu mewn grŵp blwyddyn anghronolegol yn perfformio'n waeth mewn tasgau darllen, deall, a mathemateg na'r rhai ag ADY fel arall.

*6.4* *Caffael Saesneg*

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn deall y gallai fod angen rhywfaint o gymorth a/neu ymyrraeth ar rai dysgwyr sy'n defnyddio Saesneg fel iaith ychwanegol. Fodd bynnag, nid DGBA sydd ei angen o reidrwydd. Mae'r ymchwil ganlynol yn cefnogi'r safbwynt hwn.

Canfu'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (SGA) (2021) fod disgyblion DGBA ar gyfartaledd dri mis yn academaidd y tu ôl i'r rhai a arhosodd yn eu grŵp blwyddyn gronolegol. Mae'r effaith negyddol hon ar gynnydd yn fwy i blant a phobl ifanc sydd â chefndir ethnig lleiafrifol.

Mae ymchwil wedi dangos bod yr amser sydd ei angen i gyrraedd cymhwysedd academaidd mewn iaith wedi cael ei asesu i fod yn unrhyw beth rhwng 5 a 10 mlynedd (Collier, 1989; Nodiadau, 2010). Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyflymder caffael iaith yn cynnwys cymhwysedd sy'n bodoli eisoes yn iaith yr aelwyd, gan gynnwys lefelau darllen ac addysg flaenorol, ffactorau economaidd-gymdeithasol, ac oedran wrth ddechrau caffael iaith newydd. O'r herwydd, mae lleoli mewn blwyddyn anghronolegol yn annhebygol iawn o fod yn ymyrraeth ddefnyddiol wrth ystyried hyd yr amser sydd ei angen i gaffael cymhwysedd iaith, ac wrth gofio hefyd yr effeithiau academaidd a chymdeithasol negyddol cysylltiedig.

*6.5* Mwy abl a thalentog

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn mabwysiadu'r safbwynt y dylai pob disgybl gael ei addysgu yn ei grŵp blwyddyn gronolegol, hyd yn oed os ystyrir ei fod yn fwy galluog a thalentog. Mae hyn yn unol â Chod ADY Cymru (2021), sy'n cyflwyno y gellir diwallu anghenion disgyblion sy'n fwy abl a thalentog yn eu grŵp blwyddyn gronolegol, trwy addysgu gwahaniaethol a chyfleoedd ymestyn a herio.

> *"Nid yw'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu hystyried yn 'fwy galluog a thalentog' yn cael anhawster dysgu ar sail eu gallu na'u talent uwch. Efallai y bydd angen gwell cyfleoedd a her ar y plant a'r bobl ifanc hyn er mwyn cyrraedd eu llawn botensial, ond dylid rhoi hyn drwy addysgu gwahaniaethol" (Llywodraeth Cymru, 2021).*

Mae yna rai astudiaethau academaidd sy'n cefnogi dysgu carlam i ddisgyblion sy'n cael eu hystyried yn fwy abl a thalentog (Wardman, 2017). Fodd bynnag, mae angen ystyried unrhyw fuddion posibl yn ofalus ochr yn ochr â'r effeithiau cymdeithasol ac emosiynol negyddol posibl sy'n gysylltiedig â DGBA, fel y manylwyd yn flaenorol. Mae Attfield (2009) yn nodi y gallai fod costau emosiynol sylweddol o ganlyniad i ddringo blwyddyn gyfan o addysg, o ran colli ffrindiau a gwahaniaethau mewn datblygiad emosiynol i'r grŵp blwyddyn newydd.

**Cyfeiriadau:**


7. Clatworthy, V. (2005) The perceptions of parents, pupils and teachers on grade retention. Traethawd Hir Gradd Meistr y Gwyddorau (heb ei gyhoeddi), Prifysgol Bryste.
8. Collier, V.P. (1989). How Long? A Synthesis of Research on Academic Achievement in a Second Language. *Rhifyn Chwarterol TESOL*, 23 (3), 509-531. https://doi.org/10.2307/3586923
9. Demie, F. (2010). *English as an Additional Language: An empirical study of stages of English proficiency.* *https://www.naldic.org.uk/Resources/NALDIC/Research%20and%20Information/Documents/EALEmpirical2011.pdf*
10. Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2018). *Repeating a year.* https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/repeating-a-year/.
11. Major, L. E., & Higgins, S. (2019). *What Works?: Research and evidence for successful teaching*. Cwmni Cyhoeddi Bloomsbury.
12. Hattie, J. (2009). Visible Learning. Llundain: Routledge.
13. Hughes, J. N., West, S. G., Kim, H., & Bauer, S. S. (2018). Effect of early grade retention on school completion: A prospective study. *Journal of educational psychology*, *110*(7), 974
14. Ikeda, M., & Garcia, E. (2014) Grade repetition: A comparative study of academic and non-academic consequences. OECD Journal: Economic Studies. 2,013(1), 269-315.
15. Keller-Margulis, M., & Gischlar, K. (2014). Response to intervention and retention for children with specific learning disabilities: Differences in academic achievement between retained and non-retained students. *Contemporary School Psychology*, *18*, 35-43.
16. Klapproth, F., Schaltz, P., Brunner, M., Keller, U., Fischbach, A., Ugen, S., & Martin, R. (2016). Short-term and medium-term effects of grade retention in secondary school on academic achievement and psychosocial outcome variables. *Learning and Individual Differences*, 50, 182-194
17. Kretschmann, J., Vock, M., Lüdtke, O., Jansen, M., & Gronostaj, A. (2019). Effects of Grade Retention on Students' Motivation: A Longitudinal Study Over 3 Years of Secondary School. *Journal of Educational Psychology*. 111. 10.1037.
18. Martin, A. (2011). Holding back and holding behind: Grade retention and students' non-academic and academic outcomes. *British Educational Research Journal*. 37. 739-763. 10.1080/01411926.2010.490874.
19. Cymdeithas Datblygu Iaith yn y Cwricwlwm Genedlaethol (2015). *English as an Additional Language: An empirical study of stages of English proficiency.* *https://www.naldic.org.uk/research-and-information/research+summaries/ealpficiencylambeth.html*
20. Van Canegem, T., Van Houtte, M., & Demanet, J. (2022). Grade Retention, A Pathway to Solitude? A Cross-National Multilevel Analysis towards the Effects of Being Retained

on Students' Sense of Belonging at School. *Comparative Education Review*. In Press. 10.1086/721649.
21. Wardman, J. (2017). Full-year Acceleration of Gifted High School Students: A 360° View. Yn: Ballam, N., Moltzen, R. (eds) *Giftedness and Talent (pp.227-251)*. Springer. https://doi.org/10.1007/978-981-10-6701-3_11
22. Llywodraeth Cymru (2022) *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)*. https://www.llyw.cymru/deddf-cwricwlwm-ac-asesu-cymru
23. Llywodraeth Cymru. (2021). *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)*. https://www.llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru
24. Llywodraeth Cymru (2021). Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru
25. https://llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol

## 7. Atodiad 2: Cod Cod Derbyn i Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru

Dogfen cod statudol rhif 005/2013

***Derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol***

*3.30 Er y caiff mwyafrif y plant eu derbyn i'r ysgol gyda'u grŵp oedran cronolegol, o bryd i'w gilydd, bydd rhieni yn ceisio lleoedd y tu allan i'w grŵp oedran arferol ar gyfer plant dawnus a thalentog, neu'r rheiny sydd wedi cael trafferthion neu wedi colli rhan o'r flwyddyn, yn aml oherwydd salwch. Er na fyddai'n briodol fel arfer i blentyn gael ei roi mewn grŵp oedran nad yw'n cyfateb â'i oedran cronolegol, dylai'r awdurdodau derbyn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus a phenderfynu ar sail amgylchiadau pob achos ac wrth ymgynghori â'r rhieni a'r ysgol, ac yn enwedig o ran yr hyn sydd fwyaf buddiol i'r plentyn. Dylid rhoi ystyriaeth ddyladwy hefyd i Adroddiad y Seicolegydd Addysg pan fo un ar gael, a bydd angen cael rhesymau clir er mwyn gwneud penderfyniad o'r fath.*

*Os penderfynir bod sail i ystyried cais 'tu allan i flwyddyn', mae gan rieni sy'n cael gwrthodiad am le mewn ysgol hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os yw lle wedi'i gynnig ond nad yw yn y grŵp oedran o ddewis.*

*DS Dylai ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (ffydd) hefyd ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a nodir uchod.*

**Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023**
**I'w adolygu: Medi 2023**
**I'w adolygu gan: Prif Seicolegydd Addysg**